# Dyma ni! Blwyddyn 2



## Athrawes

Mrs Mags Lewis



## Cynorthwywreig

Miss Hayley Davies



Mrs Lisbeth Callegari



## Anifeiliaid Anwes

Dilis



Gladis



Dyma blwyddyn 2, mae gyda ni 27 o ddisgyblion. Enw ein dosbarth ni yw 'Dosbarth Ynys Bŷr'.

Bwriad y dudalen hon yw rhoi i chi flas o'r hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth blwyddyn 2 drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r cyfnod sylfaen yn cyfoethogi'r profiadau dysgu sy'n galluogi disgyblion i fod yn greadigol, llawn dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu. Bydd y disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas drwy weithredu'r gweithgareddau strwythuredig a fydd yn ymgysylltu ac yn cymell i ddod yn ddysgwyr effeithiol.

## Dysgu Adref - Sillafu – J2 Numberblast



Mi fydd rhestrau sillafu yn gysylltiedig gyda'r gwaith dosbarth yn cael ei rhoi bob dydd Mercher. Sicrhewch eich bod yn dod a'r llyfrau sillafu yn wythnosol er mwyn cael rhestr newydd. Mae'r geiriau hefyd yn cael eu newid yn wythnosol ar Hwb (J2blast) er mwyn eu hymarfer. Dylai disgyblion hefyd fanteisio ar yr ap J2 Numberblast ar eu cyfrif Hwb i wella eu sgiliau lluosi.



## Llyfrau darllen

Rydym yn ymdrechu i ddarllen gyda'r disgyblion bob  Dydd Mawrth, Dydd Mercher a Dydd Gwener felly mae'n hanfodol eu bod nhw yn dod â'i llyfrau ar y dyddiau hyn. Bydd llyfrau yn cael ei newid pan mae'r disgyblion wedi cyflawni'r llyfr ac yn dangos ei bod nhw wedi deal yr hyn y maent wedi ei ddarllen.

## Mercher Mwdlyd 

Bob prynhawn Mercher bydd disgyblion yn cymryd rhan yn 'Mercher Mwdlyd'; mae disgwyl i bob disgybl newid i'w gwisg 'Mercher Mwdlyd' cyn cymryd rhan - dylai'r rhain fod yn ddillad ac esgidiau priodol ar gyfer y tywydd a rhai sy'n gallu mynd yn fudr/gwlyb ac ar adegau paent a deunyddiau eraill ymlaen.



## Ymarfer Corff a Nofio

Mae sessiynau ymarfer corff yn cael ei gynnal pob bore Dydd Iau, disgwylir i'r disgyblion i newid i'w gwisg ymarfer corff cyn cymryd rhan. (Crys t (Lliw eu tŷ, siorts/trowser ac esgidiau ymarfer corff os yn bosibl) Bydd y disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau nofio bob bore dydd Llun. Sicrhewch fod eich plentyn yn dod a gwisg nofio, tywel, gogls a het nofio